Cofion a Chyfarchion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Rydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Glyn Williams (Cefn Meiriadog), un a fu'n flaenor ac yn arweinydd y gân am flynyddoedd lawer. Diolchwn amdano ac am ei ffyddlondeb i'r eglwys yng Nghefn Meiriadog. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu yn eu profedigaeth a chyflwynwn hwy i ofal a thangnefedd Duw. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Mrs Olwen Cottle (Henllan) a fu farw'n ddisymwth bythefnos yn ôl, hithau wedi cyfrannu'n helaeth yn y byd addysg ac i fywyd yr ardal. Cyflwynwn y teulu hwn hefyd i ofal yr Arglwydd a gweddïwn y bydd Duw yn cysgodi dros y teulu dros y diwrnodau a'r wythnosau nesaf wrth iddyn nhw geisio dod i delerau â'r golled a ddaeth i'w rhan. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf hefyd â Gwyneth Evans (Cefn Meiriadog) a gweddill ei theulu yn dilyn marwolaeth ei brawd, Emlyn. Hyderwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt yn ystod y dyddiau nesaf, ac y cânt adnabod flas y tangnefedd na ŵyr y byd amdano. Gwyddom am eraill o'n plith sydd hefyd mewn galar a gweddïwn y byddant hwythau yn profi nerth a chynhaliaeth Duw ei hun yn ddigon y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion at John H. Williams (Llannefydd) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari ar hyn o bryd. Cyflwynwn ef yn ein gweddïau gan hyderu y caiff adnabod holl ddaioni Duw yn ei amgylchynu.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elwyn Williams (Henllan) ar ddathlu penblwydd arbennig!

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Derbyniwyd neges yn diolch am haelioni Chwiorydd Sasiwn Gymraeg y Gogledd a gyfrannodd £18,000 tuag at Gasgliad Arbennig y Chwiorydd yn 2019 – arbennig iawn yn wir! Diolch i chi i gyd am eich haelioni.

Bydd trysorydd eich eglwys yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at Gasgliad Arbennig y Chwiorydd yn 2020 mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **Oedfa o Ddiolch** yng Nghapel Penuel, Caerfyrddin am 2.00 pnawn Sadwrn, Chwefror 29ain a fydd yn barti pen-blwydd i beibl.net yn 18 oed, a hefyd yn gyfle i ddiolch yn ffurfiol i'r elusen a'i weithwyr am eu cyfraniad.
- **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** yng Nghapel Cefn Meiriadog nos Fawrth, Mawrth 17eg am 7.30 yng nghwmni Heledd Iago fydd yn siarad am waith 'Baby Basics Dyffryn Clwyd'. Bydd casgliad y noson yn cael ei roi tuag at yr elusen.

Llais Bro Aled

Chwefror 16eg a 23ain, 2020

DILYNWCH NI AR TWITTER:
@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'r oedfaon heddiw gan obeithio na fydd Storm Dennis yn achosi dinistr tebyg i'r hyn a wnaeth Ciara mewn cymaint o ardaloedd y Sul diwethaf. Gweddïwn hefyd dros deuluoedd y gwyddom amdanynt a effeithiwyd gan y llifogydd neu sydd wedi profi profedigaethau torcalonnus. Gofynnwn i Dduw fod yn gysgod ac yn dŵr cadarn iddynt yn eu trallod. (Salm 61:3)

Wrth weld y dyfroedd hollbresennol yn gorlifo drwy dai a thros y ffyrdd a'r caeau'r wythnos ddiwethaf, anodd oedd peidio cael ein hysgwyd gan mor rymus y gall y tywydd fod, ac mor annigonol y gallwn ni deimlo yn wyneb y fath rym. Ac ymateb tebyg iawn a ddaeth wrth weld y tannau dychrynllyd yn sgubo dros ehangder Awstralia ychydig wythnosau yn ôl. Ar un llaw mae dŵr a thân yn elfennau mor bwysig yn ein ffyniant a'n bodolaeth fel dynoliaeth, ond ar y llaw arall, pan maent yn lledaenu'n aflywodraethus nid oes fawr ddim y gallwn ei wneud i geisio atal y difrod a achosir ganddynt.

Gwelir egwyddor debyg yn y Beibl, lle mae'r Arglwydd yn ei ofal drostynt yn rhybuddio'i bobl rhag gadael i bethau sy'n ddefnyddiol ac yn bwysig fynd allan o reolaeth yn eu bywydau. Meddyliwch am rai esiamplau – arian, gwaith, serch a theulu – elfennau sy'n rhoddion gan Dduw, ond sy'n gallu dinistrio'n bywydau os ydynt yn troi yn bopeth i ni. Cofiwch beth ddywedodd Iesu Grist wrth ddysgu'i ddisgyblion am beryglon arian yn y Bregeth ar y Mynydd: "Does neb yn gallu gweithio i ddau feistr gwahanol ar yr un pryd. Mae un yn siŵr o gael y flaenoriaeth ar draul y llall. Allwch chi ddim bod yn was i Dduw ac i arian ar yr un pryd. (Mathew 6:24 Beibl.net)

Dychmygwch y demtasiwn i Iesu adael i bethau eraill gymryd drosodd yn ystod ei weinidogaeth. Caru poblogrwydd a'r enw da a dderbyniodd gan y tyrfaoedd, caru'r grym a'r awdurdod syfrdanol oedd ganddo, neu hyd yn oed caru'i ddisgyblion i'r graddau nad oedd yn barod i wneud unrhyw beth fyddai'n gwneud iddynt deimlo'n annifyr. Ond diolch byth, ni ildiodd i'r temtasiynau hyn. Er holl ymdrechion twyllodrus y diafol, bu Iesu'n ffyddlon. Carodd y Tad trwy'r cyfan, a dangosodd hynny trwy fyw'n gwbl ufudd iddo – ufudd-dod a'i harweiniodd i'r Groes. Ac ar sail hynny yr ydym yn diolch i Dduw am Ei ras tuag at rai annheilwng, gan annog ein gilydd i droi at Grist – yr Un sy'n gwybod yn iawn beth yr ydym yn ei wynebu. 'Oherwydd, am iddo ef ei hun ddioddef a chael ei demtio, y mae'n gallu cynorthwyo'r rhai sydd yn cael eu temtio.' (Hebreaid 2:18)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 16eg	➢ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Rhodri yn pregethu.
Gwener – Sul 21ain – 23ain	➢ **Penwythnos Ieuenctid** (Bl. 7-11) yng Ngholeg y Bala. Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn rhoi **£20 o ostyngiad i bob unigolyn** fydd yn mynd ar y cwrs. I archebu lle, cofrestrwch ar-lein: colegybala.org neu ffoniwch 01678 520565 i gael ffurflen bapur.
Sul nesaf – 23ain	➢ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd y Parch. Hywel Meredydd yn pregethu.
Mercher – 26ain	➢ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
Iau – 27ain	➢ **Cyfarfod Plant Llannefydd** am 3.15.
Sul canlynol – 1af	➢ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.

Llannefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

Sul yma – 16eg	➢ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 11.00. ➢ Cynhelir Ysgol Sul yn Llannefydd am 10.00. Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 11.00 a'r Ysgol Sul yn cydredeg.
Sul nesaf – 23ain	➢ Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Llannefydd am 9.30 a'r Ysgol Sul yn cydredeg. ➢ Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa yn Henllan am 11.00.
Sul canlynol – 1af	➢ Cynhelir gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn Groes am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 11.00. ➢ Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 9.30 a bydd Oedfa Gŵyl Ddewi Undebol yn y capel am 2.00. ➢ Cynhelir gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn Llannefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgolion Sul y plant yn cydredeg.

Peniel, Saron a Nantglyn

Sul yma – 16eg	➢ Bydd Mr Gwion Dafydd yn arwain oedfa yn Saron am 10.00.
Sul nesaf – 23ain	➢ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.
Sul canlynol – 1af	➢ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun ym Mheniel am 10.00.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

Sul yma – 16eg	➢ Bydd Mr Gwydion Lewis yn arwain oedfa i'r daith (Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair) yn Llansannan am 10.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg.
Llun – 17eg	➢ Cymdeithas Llansannan – Bwriedir mynd i Noson o Ddramâu yng Nghapel Bethania, Rhuthun am 7.30. Os ydych angen trafnidiaeth neu am rannu car, dewch i faes parcio Capel Coffa Henry Rees erbyn 6.45, os gwelwch yn dda. (Er mwyn sicrhau tocyn, wnewch chi roi eich enw i Alun, Wenna neu Ann Evans erbyn dydd Sul, Chwefror 16eg os gwelwch yn dda?)
Mawrth – 18fed	➢ 'Paned a Sgwrs' yn Festri Llansannan o 1.00-3.00 yng nghwmni Oswen Davies fydd yn siarad am ei gwaith cwiltio.
Sul nesaf – 23ain	➢ Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00. ➢ Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa am 11.00. Ni fydd Ysgol Sul i'r plant.
Mercher – 26ain	➢ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (23ain)**, os gwelwch yn dda.
Sul canlynol – 1af	➢ Bydd Mr Gwion Dafydd yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul y plant yn cydredeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 10.30. ➢ Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn dilyn am 10.30.

Manylion Cyswllt

Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 07814 660291

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (26ain), os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.